**EDC-05-99(p4)w**

**Pwyllgor Datblygu Economaid**

**Dyddiad:** 15 Medi 1999

**Lleolid:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Sylwadau pellach ar y Cynllun Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan CBI Cymru

Diolch o galon ichi am eich e-bost a’ch ffacs dyddiedig 3 Medi ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 15 Medi a’u trafodaeth am argymhellion y

Grp Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant.

Bydd CBI Cymru yn falch iawn o’r cyfle i fynegi barn busnesau Cymru ger bron y Pwyllgor. Er hynny, rydym yn teimlo bod y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynasom yn y Pwyllgor Addysg (ar ôl 16 oed) a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf yn esbonio’n safbwyntiau’n llawn ac yn ddigonol. Gan y bydd y papur hwnnw yn cael ei anfon at aelodau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd, ni welwn fawr o ddiben cynhyrchu dogfen arall.

Os oes gan y Pwyllgor unrhyw gwestiynau am ein safbwyntiau, byddwn yn fwy na pharod i’w hateb yn ysgrifenedig neu os bydd y Pwyllgor am glywed ein tystiolaeth lafar yn ei gyfarfod, byddwn yn fwy na pharod i ddod ger eich bron ac esbonio’n safbwyntiau yn bersonol.

Carem bwysleisio i’r Pwyllgor fodd bynnag, bod CBI Cymru o’r farn bod Addysg a Hyfforddiant yn rhan ganolog o’r Isadeiledd i Fusnesau Cymru a’u bod yn allweddol mewn unrhyw strategaeth i ddatblygu’r economi. Mewn un arolwg ar ôl y llall, mae ein haelodau wedi ategu bod sgiliau a hyfforddiant yn anghenion y mae’n rhaid wrthynt mewn unrhyw strategaeth ar gyfer busnesau a chredwn y dylid edrych ar y system Addysg a Hyfforddiant yn ei chyfanrwydd o safbwynt datblygu economaidd.